Janet Finch-Saunders AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

---

10 Rhagfyr 2000

Annwyl Janet,

Deiseb P-05-1032 Deddfu i atal newid enwau Cymraeg tai

Diolch yn fawr iawn am eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr yn holi am waith pellach ar ein hymchwiliad i amgylchedd hanesyddol Cymru.

Byddaf yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i ofyn am ddiweddariad ar y cynnydd o ran yr argymhellion yn ein hadroddiad ar yr ymchwiliad.

Bydd yr ymateb yn cael ei ddefnyddio i lywio adroddiad gwaddol y Pwyllgor a fydd yn rhoi crynodeb o'n gwaith yn ystod y Pumed Senedd a phynciau posibl ar gyfer unrhyw bwyllgor yn y dyfodol sy'n gyfrifol am dreftadaeth. Byddaf yn sicrhau bod yr ymateb yn cael ei anfon atoch rhag ofn eich bod am ddiweddaru'r deisebwyr.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deisebau
—
Welsh Parliament
Petitions Committee

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Rhagfyr 2020

Annwyl Helen Mary

Deiseb P-05-1032 Deddfu i atal newid enwau Cymraeg tai

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn trafod y ddeiseb uchod ar hyn o bryd. Fe'i trafodwyd am y tro cyntaf yn ein cyfarfod ar 17 Tachwedd.

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i nodi'r ddeiseb ac i ofyn i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu a ydych yn bwriadu gwneud unrhyw waith pellach i fynd ar drywydd y cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed fel rhan o'ch ymchwiliad i'r **Amgylchedd Hanesyddol**

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno i ofyn am amser ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y mater yn y Flwyddyn Newydd, yn sgil nifer y llofnodion ar y ddeiseb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb drwy neges e-bost at y tîm clercio yn ***Deisebau@Senedd.Cymru***.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=29739.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod, neu ffoniwch 0300 200 6454.

Yn gywir

Janet

Janet Finch-Saunders AS

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDeisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPetitions@senedd.wales
0300 200 6565

Cadeirydd

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDeisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPetitions@senedd.wales
0300 200 6565